**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019**

## Pwynt Craffu Technegol 1 - Ymateb

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gydgasglu gwybodaeth ynghylch trosi deddfwriaeth yr UE yn y maes hwn, a gosododd hysbysiad yn y gronfa ddata Mesurau Gweithredu Cenedlaethol ar ein rhan. Cysylltodd Defra ag Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru ar 25 Medi 2019 i ofyn am y newyddion diweddaraf ynghylch trosi Cyfarwyddeb (EU) 2018/350. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei throsi'n hwyr, ond mai ychydig iawn o oedi a fyddai. Ar 9 Hydref 2019 cysylltodd Llywodraeth Cymru â Defra i ddweud bod Cyfarwyddeb 2018 wedi ei gweithredu drwy gyfrwng Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019, a osodwyd ar 8 Hydref 2019.

## Pwynt Craffu Technegol 2 - Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mai at baragraff 14(g) y dylai'r croesgyfeiriad fod, a bydd yn cymryd camau i wneud y cywiriad a nodwyd gan y Pwyllgor.

## Pwynt Craffu Technegol 3 - Ymateb

### Pwynt i:

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gofynion a nodir yn adran B.4(f) o Atodiad III B i Gyfarwyddeb 2001 (a fewnosodir gan yr Atodiad i Gyfarwyddeb 2018) wedi eu cwmpasu gan eiriad paragraff 40 o Atodlen 1 i Reoliadau 2002, sy'n darparu gofyniad i gyflenwi gwybodaeth ynghylch y dulliau a'r gweithdrefnau i ddiogelu'r safle.

Yng nghyd-destun gwneud cais, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â diogelu'r safle yn ei hanfod yn cwmpasu darparu gwybodaeth ynghylch y dulliau a'r gweithdrefnau a nodir yn adran B.4(f). Wedi ystyried cwmpas a natur gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelu'r safle, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod geiriad Atodlen 1 yn cwmpasu'r dulliau a'r gweithdrefnau y mae'r Pwyllgor yn cyfeirio atynt, heb fod angen cynnwys yr union destun a ddyfynnwyd. Er enghraifft, byddai geiriad Rheoliadau 2002 yn ei gwneud yn ofynnol darparu manylion ynghylch y Trefniadau Gweithredu Safonol y mae rhaid i weithwyr awdurdodedig eu dilyn, a manylion eraill a fyddai, gyda'i gilydd, yn cwmpasu'r pwyntiau a nodir yn adran B.4(f) ac yn mynd y tu hwnt i hynny.

### Pwynt ii:

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Rheoliadau'n cwmpasu'r testun a ddyfynnwyd gan y Pwyllgor, a bod y testun hwnnw wedi ei adlewyrchu yn y Rheoliadau, heb fod

angen dilyn yr un geiriad yn union. Yn benodol, gofynnir i'r Pwyllgor gyfeirio at reoliad 7, a pharagraff 18 o Atodlen 1A sydd i'w fewnosod yn Rheoliadau 2002, sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu:

> *Yr wybodaeth ganlynol am y dadansoddiad cymharol o nodweddion agronomig a ffenotypig a chyfansoddiad—*
>
> *(a) dewis cyfatebydd confensiynol ac unrhyw gymaryddion ychwanegol a ddefnyddiwyd mewn dadansoddiadau cymharol,*
>
> *(b) dewis lleoliad y safle maes ar gyfer cynhyrchu deunydd planhigion ar gyfer dadansoddiadau cymharol,*
>
> *(c) dyluniad yr arbrawf gan gynnwys dadansoddiad ystadegol,*
>
> *(ch) dewis deunydd planhigion i'w ddadansoddi, pan fo hynny'n berthnasol,*
>
> *(d) dadansoddiad cymharol o nodweddion agronomig a ffenotypig,*
>
> *(dd) dadansoddiad cymharol o gyfansoddiad, os yw'n berthnasol…*

Mae'r ddarpariaeth hon, o'i darllen gyda'r diwygiad i reoliad 17 o Reoliadau 2002, y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 5 o Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019, yn cwmpasu gofynion Cyfarwyddeb (EU) 2018/350 heb ddyfynnu'r union eiriau y mae'r Pwyllgor yn cyfeirio atynt.

## Pwynt Craffu Technegol 4 - Ymateb

### Pwyntiau i, ii a iv:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwyntiau a godwyd a bydd yn cymryd camau i wneud y cywiriadau a nodwyd gan y Pwyllgor.

### Pwynt iv:

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y gair 'nodweddion' wedi ei ddefnyddio yn y Rheoliadau i gyfleu 'traits' yn ogystal â 'characteristics' yn y Gymraeg. Dewiswyd y geiriad hwn i gyd-fynd â geiriad testun Cymraeg Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002 ac fe'i defnyddiwyd er mwyn sicrhau cysondeb. Derbynnir bod ystyron penodol i'r geiriau ym maes geneteg. Oherwydd y modd y defnyddiwyd y term yn Rheoliadau 2002, ystyrir y gallai gwahaniaethu rhwng y termau yn Rheoliadau 2019 beri ansicrwydd wrth ddehongli Rheoliadau 2002. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y modd y defnyddir y termau yn Rheoliadau 2002, er mwyn gwahaniaethu rhwng 'traits' a 'characteristics' ar adeg briodol yn y dyfodol.